# Llwybr Bae Caerdydd

# TAITH GELF A THREFTADAETH

10 cilometr (6.2 milltir) o hyd yw'r llwybr cylchol hwn i feicwyr, cerddwyr a rhedwyr ac mae'n mynd trwy Fae Caerdydd a Phenarth a thros Bont Y Werin, pont 140 metr bwrpasol. Ar y llwybr, gallwch fwynhau treftadaeth a chelf gyhoeddus gyfoethog Caerdydd, yn ogystal â chaffis, tafarnau a bwytai bywiog ar lan y dŵr.

## TEITHIO I FAE CAERDYDD

- Ewch i gefn Gorsaf Drenau Caerdydd Canolog i ddal Bws y Bae, gwasanaeth bws 6. Mae gwasanaethau 7 a 8 hefyd yn mynd o ganol dinas Caerdydd i'r Bae.
- Daliwch y trên o orsaf Heol-y-Frenhines i Fae Caerdydd.
- Cerddwch yno - nid yw ond nepell drwy Sgwâr Callaghan ac ar hyd Rhodfa Lloyd George.

Traveline Cymru i gael yr holl fanylion am drafnidiaeth gyhoeddus
Ff: 0300 200 22 33
www.traveline.cymru

Canolfan Croeso Caerdydd
Canolfan Mileniwm Cymru,
Bae Caerdydd,CF10 5AL
Ff: 029 2087 3573
www.visitcardiff.com
ymwelydd@caerdydd.gov.uk

**Llogi beic**

Pedal Power
I gael gwybod yr amseroedd agor
Bae Caerdydd
Ff: 07775 616411
Pontcanna
Ff: 029 2039 0713
www.cardiffpedalpower.org
info@cardiffpedalpower.org

Sustrans
www.sustrans.org.uk/wales

Am fwy o wybodaeth am feicio a cherdded, ewch i www.cadwcaerdyddisymud.co.uk

**Mae Canllaw Sain Llwybr y Bae yn rhoi sylwebaeth ar y pethau diddorol sydd ym Mae Caerdydd. Mae'n costio £4.99, ac mae ar gael yng Nghanolfan Croeso Caerdydd. ymwelydd@caerdydd.gov.uk.**

Cyhoeddwyd gan Awdurdod Harbwr Caerdydd 2016.
This map is also available in English. If you would like to receive a copy, please call 029 2087 3573.



## 1 Y Twr Dŵr

Mae gan y Tŵr Dŵr, sydd wedi'i wneud yn enwog gan *Torchwood*, cyfres boblogaidd y BBC, wynebau adlewyrchol a llif o ddŵr rhedegog. Gan ei fod yn 70 troedfedd o uchder, mae'n dirnod trawiadol yn y Bae.



## 2 Adeilad y Pierhead

Codwyd yr adeilad mawreddog hwn, a oedd yn swyddfeydd i Gwmni Rheilffordd Caerdydd ar un tro, gan William Frame yn ystod y cyfnod Fictoraidd. Mae bellach yn rhan o Gynulliad Cymru a ddefnyddir fel canolfan unigryw i ymwelwyr a lleoliad ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau.



## 3 Cofeb Ryfel y Morwyr Masnachol

Mae'r cerflun coffa hwn sydd er cof am forwyr masnachol Bae Caerdydd yn cyfuno corff llong wedi'i lanio gydag wyneb digyfnewid sy'n cynrychioli pob person a fu farw yn y môr.



## 4 Wal y Dolffiniaid a'r Doc

Mae'r wal fôr hon yn goleddu o'r gogledd i'r de rhwng Doc Bute y Dwyrain a Basn y Rhath. Mae pum darn o bren yn goleddu tuag at i mewn ychydig ar y gwaelod. Defnyddiwyd nhw i glymu llongau wrth iddynt gael eu trwsio.



## 5 Meinciau Creaduriaid

Ysbrydolwyd y meinciau briciau cerfiedig prydferth gan y creaduriaid mytholegol a ddisgrifir yn *Ballad of the Long-Legged Bait*, cerdd gan Dylan Thomas.



## 6 Pit to Port a'r Waterguard

Crëwyd y cerflun efydd gan y diweddar artist John Clinch, ac fe'i cwblhawyd gan Jon Buck. Mae'n dathlu treftadaeth Bae Caerdydd fel un o borthladdoedd allforio glo pwysicaf y byd.

Mae'r Waterguard yn enwog am ei bensaernïaeth gyfunol. Symudwyd wyneb Fictoraidd yr adeilad o Ddociau Caerdydd i'w leoliad presennol ym 1993, ac fe'i haddaswyd gyda dyluniadau modern yn 2001.



## 7 Yr Eglwys Norwyaidd a Chofeb Capten Scott


Mae'r eglwys hon, a anfonwyd mewn llong yn y 1860au ar gyfer y morwyr Sgandinafaidd a oedd yn gweithio yn y Dociau, yn enwog am fod yr eglwys lle cafodd Roald Dahl ei fedyddio. Heddiw, mae'n cynnwys oriel, lle i ddigwyddiadau a chaffi.

Y tu allan i'r eglwys, mae cofeb fosaig Capten Scott yn edrych dros y fan lle hwyliodd llong Scott, yr SS Terra Nova, ym 1910.



## 8 Arddangosfa Oes y Glo

Mae'r arddangosfa hon yn dangos datblygiad ffynonellau ynni, o lo a phŵer niwclear i ynni adnewyddadwy. Mae'r hysbysfyrddau hefyd yn adrodd hanes Dociau Caerdydd a'r Bae.




## 9 Arddangosfa Capten Scott

Dan hwyliau'r Morglawdd, byddwch yn dod o hyd i arddangosfa yn amlinellu'r Alldaith Prydeinig i'r Arctig ym 1910, a arweiniwyd gan Gapten Roberth Falcon Scott. Mae'n disgrifio'r dulliau anhygoel i'r grŵp eu defnyddio i gyrraedd pegwn y de.



## 10 Cylchau'r Morglawdd

Mae'r celfwaith hwn, a ddyluniwyd gan Felice Varini, yn defnyddio strwythurau a phaent y Morglawdd i greu collage cylchol. Nid yw'r cylchau'n weladwy yn syth a gallwch eu gweld o un lleoliad ar y Morglawdd yn unig.




## 11 Heol y Tollty

Adeiladwyd Heol y Tollty, a ddyluniwyd gan Samuel Dobson yng nghanol y 1800au, o friciau melyn gydag addurniadau carreg ac mae ganddo clochdy yn y canol. Mae hefyd ddau dŷ bwyta ganddo.




## 12 Meinciau Portreadol Caerdydd a'r Fro

Mae'r meinciau, sy'n rhan o broject Connect2 Sustrans, yn arddangos portreadau maint llawn o bobl y gymuned. Mae mainc y Fro yn dangos y Fonesig Tanni Grey-Thompson, yr Olympiad Nicole Cooke a Tim Burns o Ysgol Gynradd Cogan. Mae'r fainc yng Nghaerdydd yn dangos Jason Stone o'r Cardiff Devils; sefydlwraig Pedal Power, Sybil Williams; a Lydia Harris o Ysgol Gynradd Mount Stuart.



## 13 Y Lanfa Lo

Mae gweddillion y lanfa lo olaf, a godwyd ym Marina Caerdydd ym 1859, bellach yn fan edrych o Ganolfan Dŵr Gwyn Ryngwladol Caerdydd. Mae'r adeiledd hanesyddol wedi'i gadw i atgoffa pobl am hanes a threftadaeth Marina Caerdydd.



## 14 Gwarchodfa Gwlyptir

Agorwyd y lle hwn, a ddatblygwyd ar hen forfa heli, yn swyddogol fel gwarchodfa gwlyptir yng Ngorffennaf 2002. Mae oddeutu 8 hectar ac fe'i lleolir ar ymyl ogleddol Bae Caerdydd, yn gartref i blanhigion ac anifeiliaid lu. Os ydych yn mwynhau gwylio adar, mae'r mannau gwylio ger Gwesty Dewi Sant ar y llwybr pren yn ardderchog.



## 15 Cloddio'r Bae

Dewch o hyd i'r hyn sy'n cuddio yn nŵr a mwd y Bae trwy archwilio'r gosodiad celf diddorol iawn gan Ruth McLees yn y Dociau Sych.



## 16 Pobl Fel Ni

Mae'r cerflun efydd hwn o gwpl ifanc, a grëwyd gan John Clinch ym 1993, yn cynrychioli'r bobl a oedd yn byw ac yn gweithio yn hen ardal Tiger Bay.




## 17 Y Gyfnewidfa Lo

Er nad yw ar agor i'r cyhoedd ar hyn o bryd, mae hwn yn un o'r adeiladau masnachol pwysicaf hanesyddol yng Nghymru. Roedd perchenogion busnes blaenllaw yn cwrdd yn y Gyfnewidfa Lo i drafod telerau a tharo bargenion pwysig. Mae hefyd yn enwog am fod y lleoliad lle gwnaethpwyd y trafodyn £1 filiwn cyntaf.



## 18 D-Shed

Ailosodwyd yr adeilad hwn, a leolwyd yn wreiddiol yn hen Ddoc Bute y Dwyrain, yn y lleoliad presennol ac mae bellach yn gartref i Grefft yn y Bae a chaffi. Dyma enghraifft brin o warws/sied gludo gyda ffrâm haearn.


Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd
Cardiff International White Water
www.ciww.com
raciau beiciau
chwaraeon dŵr
bar caffi
balconi golygfa
ardal picnic
02920 829970
Cyfeirnod Map C5
CARDIFF CAERDYDD
HARBOUR AUTHORITY
AWDURDOD HARBWR
Llwybr Bae Caerdydd
Pellter:
10km/6.2 Milltir
(Tua)
Allwedd
Canolfan Croeso
Toiledau
Llefydd Newid
Gorsafoedd Trên
Bws Awyr Agored
Arosfan Bws Dŵr
Ymadawiadau am Ynys Echni
Gwarchodfa'r Gwlyptiroedd
Safle Tacsis
Swyddfa'r Post
Parc
Heddlu
Llawr Sglefrio
Stadiwm Chwaraeon
Pwll Nofio Rhyngwladol
14 Llwybr Celf a Threftadaeth
Parcio i Feiciau
Llwybr Bae
Cerddwch eich beic yma
Llwybr Seiclo
Beicwyr: Gofal
Ar y Ffordd
Theatr
Sinema
Amgueddfa
Adeilad o Ddiddordeb
Barrau a Bwytai
Chwaraeon Dŵr
Safle Bws y Bae
Gollwng a chodi Parcio a Theithio
BAE CAERDYDD
Morglawdd Bae Caerdydd
Porthladd Caerdydd
PORTH TEIGR
BUTETOWN
GRANGETOWN
Llwybr Bae
Llwybr Eláí
Afon Taf
Afon Elái
Parc Hamadryad
Gwarchodfa'r Gwlyptiroedd
Canolfan Iâ Cymru
Pentref Chwaraeon Rhyngwladol
Pwll Rhyngwladol Caerdydd
Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd
Marina Penarth
Clwb Hwylio Bae Caerdydd
Canolfan Gweithgareddau Bae Caerdydd
Awdurdod Harbwr Caerdydd Tŷ y Frenhines Alexandra
Ymadawiad Teithiau Preswyl i Ynys Echni Ar gais
Ymadawiadau Teithiau Undydd i Ynys Echni
Canolfan Mileniwm Cymru
Tŷ Hywel
Y Senedd
Adeilad y Pierhead
Plass Roald Dahl
Canolfan Gelfyddydau yr Eglwys Norwyaidd
Doctor Who Experience
Pentref Drama'r BBC
Basn y Rhath
Llandoche
Cogan
Grangetown
Taith Taf Canol y Ddinas
Canol y Ddinas
Bae Caerdydd
A4232
A4160
A4055
Stadiwm SWALEC
Gorsaf Cathays
Canolfan Ddinesig
Amgueddfa Genedlaethol Caerdydd
Castell Caerdydd
Gorsaf Heol-y-Frenhines
Stadiwm y Mileniwm
Gorsaf Parc Ninian
Stadiwm Dinas Caerdydd
Stadiwm Chwaraeon Rhyngwladol Caerdydd
Gorsaf Ganolog
Gorsaf Bae Caerdydd
Neuadd y Sir
Canolfan Mileniwm Cymru
Y Senedd - Siambr y Cynulliad Cenedlaethol
Pentref Chwaraeon Rhyngwladol
Dŵr Gwyn Rhyngwladol Caerdydd
Morglawdd Bae Caerdydd
1 km
1 Milltir
200m
200llath
© digital-mapping.co.uk ltd. Caerdydd 2016